# Datblygu eich Strategaeth Wirfoddoli

## Trosolwg

Mae'r dudalen wybodaeth hon wedi'i chynllunio i'ch tywys trwy gyfres o gwestiynau ac ystyriaethau i'ch galluogi i lunio Strategaeth Wirfoddoli ar gyfer eich mudiad. Beth bynnag yw maint eich sefydliad neu'r uchelgeisiau sydd gennych ar gyfer gwirfoddolwyr, mae cael Strategaeth Wirfoddoli yn werthfawr i ffurfioli gwirfoddoli yn eich mudiad ac yn helpu i amlinellu a pharatoi ar gyfer dyfodol cynaliadwy o gynnwys gwirfoddolwyr.

**Ar y dudalen hon**


- Pwysigrwydd Strategaeth Wirfoddoli
- Ar gyfer pwy mae Strategaeth Wirfoddoli?
- Sut i ymdrin â chreu Strategaeth Wirfoddoli
- Strwythuro eich Strategaeth Wirfoddoli
- Mesur llwyddiant a chynllunio ar gyfer y dyfodol
- Ymrwymiad i gefnogi gwirfoddolwyr ac arfer gorau
- Ystyriaethau wrth ddatblygu eich Strategaeth Wirfoddoli
- Defnyddio eich Strategaeth Wirfoddoli
- Cwestiynau i'w hystyried


### Cysylltwch â ni

Os ydych chi'n teimlo yr hoffech rywfaint o gymorth i greu Polisi Gwirfoddoli, gallwch gysylltu â'ch Canolfan Wirfoddoli leol

## Dogfennau eraill a allai fod o gymorth wrth greu Strategaeth Wirfoddoli yw:



[Creu Polisi Gwirfoddoli]



[Model Volunteering Policy]

## Pwysigrwydd Strategaeth Wirfoddoli

Mae strategaeth wirfoddoli yn dangos ymrwymiad eich mudiad i wirfoddoli a'i wirfoddolwyr. Mae'n amlinellu sut mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu at eich cenhadaeth a'ch nodau, gan osod disgwyliadau ac uchelgeisiau clir. Mae strategaeth gref yn cydnabod manteision a heriau ymgysylltu â gwirfoddolwyr, gan sicrhau tryloywder yn eich dull gweithredu.

## Ar gyfer pwy mae Strategaeth Wirfoddoli?

Mae strategaeth wirfoddoli yn berthnasol i fudiadau o bob maint sy'n cynnwys gwirfoddolwyr. Mae'n darparu eglurder i staff, ymddiriedolwyr, cyllidwyr, a gwirfoddolwyr eu hunain. P'un a yw'n cael ei integreiddio mewn strategaeth sefydliadol ehangach neu'n ddogfen annibynnol, dylai alinio â'ch gweledigaeth a'ch gwerthoedd, gan ei gwneud yn hygyrch i'r holl randdeiliaid.

## Sut i ymdrin â chreu Strategaeth Wirfoddoli

Mae datblygu strategaeth wirfoddoli yn gofyn am amser, adnoddau a mewnbwn gan wahanol randdeiliaid. Yn wahanol i ddatblygu polisi, sy'n dilyn fformat strwythuredig, mae creu strategaeth yn elwa ar gydweithio. Ymgysylltu â gwirfoddolwyr presennol, staff (gan gynnwys uwch reolwyr a chydlynwyr gwirfoddolwyr), ymddiriedolwyr, defnyddwyr gwasanaethau, cyllidwyr, a phartneriaid cymunedol.

Gellir casglu mewnwelediadau trwy gyfarfodydd (yn bersonol neu ar-lein), arolygon (wedi'u cadw'n fyr ac yn ddienw ar gyfer adborth gonest), a thrafodaethau anffurfiol. Mae cwrdd â rhanddeiliaid lle maen nhw eisoes, yn hytrach na disgwyl iddynt gydymffurfio ag amserlenni newydd, yn cynyddu ymgysylltiad. Caniatewch ddigon o amser ar gyfer cyfraniadau ystyrlon, gan sicrhau strategaeth gynhwysfawr a chynrychioladol.

## Strwythuro Eich Strategaeth Wirfoddoli

Dylai strategaeth wirfoddoli fod yn glir, yn ymarferol ac yn cyd-fynd ag amcanion eich mudiad. Gall gynnwys y canlynol:

- Gweledigaeth ar gyfer gwirfoddoli yn eich mudiad
- Ymrwymiadau i amrywiaeth a chynhwysiant, gan sicrhau hygyrchedd i wirfoddolwyr o wahanol gefndiroedd a phrofiadau
- Nodau ar gyfer recriwtio, cadw a chefnogaeth gwirfoddolwyr
- Rôl gwirfoddolwyr wrth gyflawni effaith
- Cynlluniau ar gyfer monitro cynnydd ac adolygu'r strategaeth dros amser

Gall y strategaeth gael ei strwythuro o amgylch themâu a nodwyd trwy drafodaethau rhanddeiliaid neu ei halinio â chynlluniau sefydliadol eraill. Gall elfennau gweledol fel siartiau llif neu fideos a wnaed gan wirfoddolwyr ei gwneud yn fwy diddorol a hawdd ei defnyddio.

## Mesur llwyddiant a chynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae strategaethau gwirfoddoli fel arfer yn amser-benodol, fel cynllun pum mlynedd, gyda chyfnodau adolygu clir. Dylai amcanion allweddol fod yn fesuradwy, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei dracio'n effeithiol. Mae gwerthuso rheolaidd yn caniatáu addasiadau yn seiliedig ar dueddiadau gwirfoddolwyr ac anghenion sefydliadol sy'n datblygu.

## Ymrwymiad i gefnogi gwirfoddolwyr ac arfer gorau

Mae strategaeth wirfoddoli wedi'i datblygu'n dda yn adlewyrchu ymroddiad eich mudiad i arferion gorau. Yn ddelfrydol mae'n amlinellu sut y byddwch chi'n cyflawni'r canlynol:

- Darparu hyfforddiant, goruchwyliaeth a diogelu o ansawdd uchel i wirfoddolwyr
- Cydnabod gwerth gwirfoddolwyr ar draws y mudiad
- Cefnogi rheolwyr gwirfoddolwyr gydag adnoddau a hyfforddiant digonol
- Sicrhau bod yr holl staff yn deall rôl gwirfoddolwyr ac yn cyfrannu at brofiad gwirfoddoli cadarnhaol

## Ystyriaethau wrth ddatblygu eich strategaeth

Wrth lunio eich strategaeth wirfoddoli, ystyriwch y meysydd allweddol canlynol:

- **Safonau arfer gorau:** Alinio â fframweithiau fel **Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr** a'r **Cod Ymarfer ar gyfer Cynnwys Gwirfoddolwyr**

- **Amrywiaeth a chynhwysiant:** Asesu sut rydych chi'n recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr i greu cyfleoedd hygyrch. Ystyried recriwtio wedi'i dargedu i gynyddu cynrychiolaeth grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- **Cynllunio ariannol:** Cyllideb ar gyfer cymorth gwirfoddolwyr, gan gydnabod bod cynnwys gwirfoddolwyr yn effeithiol yn gofyn am fuddsoddiad mewn staff, hyfforddiant a seilwaith.
- **Tueddiadau ac arloesedd gwirfoddolwyr:** Ceisiwch yr wybodaeth ddiweddaraf am arferion gwirfoddoli sy'n datblygu a chyfleoedd ymgysylltu hyblyg. Defnyddiwch dechnoleg a dulliau creadigol i wella profiad gwirfoddoli.
- **Mesur effaith:** Ymrwymwch i gasglu a dadansoddi data gwirfoddolwyr i olrhain tueddiadau, dangos effaith, a gwella ymgysylltiad gwirfoddolwyr.
- **Diwylliant sefydliadol:** Sicrhewch fod cefnogaeth gwirfoddolwyr wedi'i ymgorffori mewn disgrifiadau swyddi staff, hyfforddiant, a blaenoriaethau sefydliadol cyffredinol. Aseswch a oes gan yr holl staff sy'n rhyngweithio â gwirfoddolwyr yr wybodaeth a'r hyfforddiant angenrheidiol.

# Defnyddio Eich Strategaeth Wirfoddoli

Bwriad eich strategaeth wirfoddoli yw bod yn offeryn ymarferol, sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau ac yn atgyfnerthu eich ymrwymiad i werthfawrogi gwirfoddolwyr. Dylai fod yn hawdd dod o hyd iddi ac yn hawdd ei deall. Ystyriwch ei hintegreiddio i mewn i hyfforddiant staff a chynefino gwirfoddolwyr er mwyn ymgorffori ei hegwyddorion ar draws eich mudiad. Trwy ddatblygu a gweithredu strategaeth wirfoddolwyr yn feddylgar, gall eich mudiad greu amgylchedd gwirfoddoli croesawgar, cynhwysol ac effeithiol sydd o fudd i wirfoddolwyr a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

# Cwestiynau i'w hystyried

Mae'r cwestiynau ar gael i lywio eich trafodaethau rhanddeiliaid a/neu ddylunio'r cynnwys yn eich Strategaeth Wirfoddoli.

**Cofiwch, os ydych chi'n teimlo yr hoffech rywfaint o gymorth i greu Polisi Gwirfoddoli, gallwch gysylltu â'ch Canolfan Wirfoddoli leol**

1. Pam mae eich mudiad yn cynnwys gwirfoddolwyr?
2. Beth mae gwirfoddoli yn ychwanegu at eich mudiad?
3. Pa rolau y mae gwirfoddolwyr yn ymgymryd â nhw ar hyn o bryd a beth ydych chi'n gobeithio y gall gwirfoddolwyr fod yn rhan ohono o fewn yr amserlen ar gyfer y strategaeth hon?
4. Beth sy'n gwneud y rolau hyn yn ddeniadol ac yn ystyrlon i wirfoddolwyr?
5. A yw'r rolau hyn yn ddeniadol i ystod amrywiol o bobl sy'n dymuno cefnogi eich mudiad mewn gwahanol ffyrdd?
6. Beth fydd yn gwneud eich cyfleoedd gwirfoddoli yn ddeniadol i wirfoddolwyr sydd â gwahanol gymhellion ac anghenion?
7. Sut bydd lleisiau gwirfoddolwyr yn cael eu clywed trwy gydol ffrâm amser y strategaeth hon?

8. Sut byddwch chi'n gwerthuso llwyddiant gwirfoddoli a mesur effaith gwirfoddolwyr?
9. Sut fyddwch chi'n cydnabod cyflawniadau gwirfoddolwyr?
10. Ydych chi'n cynnal amcangyfrif o gost ac asesiad o gapasiti cefnogi gwirfoddolwyr yn unol â safonau ansawdd?
11. A yw'r rhai sy'n cefnogi gwirfoddolwyr yn teimlo'n hyderus ac yn gymwys yn y rôl?
12. A oes gennych gyllid digonol i gefnogi gwirfoddoli, neu a oes angen i chi nodi a gwneud cais am gyllid ychwanegol?
13. A yw pawb yn eich mudiad (rhanddeiliaid a restrir uchod) yn deall rôl gwirfoddolwyr? A oes strwythurau i fynd i'r afael â phryderon?
14. A oes amrywiaeth o ddelweddau a lleisiau gwirfoddolwyr yn cael eu cyflwyno trwy eich deunyddiau sefydliadol gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, tudalennau gwe ac adroddiad blynyddol, sy'n dangos gwerth amrywiaeth eang o wirfoddolwyr a'r croeso sydd iddynt?